OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2604 (Cy. 282)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 32, Helygain i Gyffordd 34, Ewloe, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *1 Tachwedd 2011*

*Yn dod i rym* *12 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer i Fangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”) wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig, a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Tachwedd 2011. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 32, Helygain i Gyffordd 34, Ewloe, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period”)* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 12 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol.